# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 24 HYDREF 2018 am 2.00 y.p. | | WEDNESDAY, 24 OCTOBER, 2018 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Lewis Davies, John Griffith, Dylan Rees *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Alun Roberts, Nicola Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Richard Griffiths, Richard O. Jones

**PLAID LAFUR CYMRU/ WALES LABOUR PARTY**

J. Arwel Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)*(Cadeirydd/Chair)*
Bryan Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /**
**CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales).

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 14)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

- 12 Medi, 2018
- 20 Medi, 2018 (Galw i fewn)

- *Bydd cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 8 Hydref, 2018 yn cael eu cyflwyno i gyfarfod 5 Tachwedd y Pwyllgor hwn.*

3 **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 15 - 16)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol -

"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

4 **MODERNEIDDIO YSGOLION - ACHOS STRATEGOL AMLINELLOL/ACHOS BUSNES AMLINELLOL AR GYFER YSGOL GYNRADD NEWYDD I GYMRYD LLE YSGOL YSGOL BODFFORDD AC YSGOL CORN HIR** (Tudalennau 17 - 86)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Dysgu.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 12 Medi, 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Griffiths, Richard Owain Jones, Alun Roberts, J. Arwel Roberts, Nicola Roberts<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol) |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaeth)<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>Pennaeth Dysgu<br>Pennaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid (CE) (ar gyfer eitem 5)<br>Rheolwr Sgriwtini<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorydd Bryan Owen, Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig) (Aelod Cyfetholedig) Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), Dr Gwynne Jones (Prif Weithredwr) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Dafydd Roberts (ar gyfer eitem 3) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Cydymdeimlodd â'r Cynghorydd Robin Williams ar ei brofedigaeth o golli ei dad. Bu hefyd longyfarch y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaeth) ar ddod yn Nain.

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

### 2 COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir –

- 4 Mehefin, 2018
- 5 Gorffennaf, 2018 (arbennig)

- 13 Gorffennaf, 2018 (arbennig)
- 2 Awst, 2018 (galw i mewn)
- 6 Awst, 2018 (galw i mewn)

**3 ADRODDIAD CYNNYDD – PANEL SGRIWTINI CYLLID**

Cyflwynwyd adroddiad cynnydd ar waith y Panel Sgriwtini Cyllid yn ystod y cyfnod rhwng Gorffennaf ac Awst, 2018 a gyflwynwyd ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.

Adroddodd y Cynghorydd Dafydd Roberts (Aelod Sgriwtini ar y Panel Sgriwtini Cyllid) bod yr Awdurdod yn gweithio mewn amseroedd ariannol heriol gyda'r angen i leihau cyllidebau heb effeithio ar wasanaethau yn uniongyrchol yn dod yn dasg gynyddol anodd. Mae'r Panel Sgriwtini Cyllid yn ymwybodol o'r pwysau ariannol ar wasanaethau, yn enwedig y pwysau ar wasanaethau a arweinir gan y galw amdanynt megis y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd ac elfennau o'r Gwasanaeth Dysgu. Un o nodau'r panel oedd adnabod a deall y materion sylfaenol sy'n gyfrifol am y pwysau parhaus ar y gwasanaethau hyn ac i sicrhau bod y gorwariant sy'n codi o ganlyniad yn cael ei liniaru gan weithredoedd parhaus a phriodol. Cadarnhaodd y Cynghorydd Roberts fod craffu ar y pwysau ariannol yn y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu felly wedi parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Panel yn y cyd-destun o fonitro'r gyllideb yn ystod Chwarter 1 o 2018/19. Comisiynodd y Panel wybodaeth bellach gan y ddau Bennaeth Gwasanaeth, a ystyriwyd yng nghyfarfod mis Gorffennaf, gyda sylw penodol yn cael ei roi i'r meysydd hynny a oedd o dan fwyaf o bwysau ynghyd â'r mesurau lliniaru a gynigwyd a/neu a weithredwyd. Mae'r Panel wedi gwahodd y ddau Bennaeth Gwasanaeth o gyflwyno diweddariad pellach i gyfarfod Medi 2018.

Dywedodd y Cynghorydd Roberts fod y Panel hefyd wedi bod yn ystyried ei rolyn y broses o osod y gyllideb ar gyfer 2019/20 ynghyd â chraffu pa mor dda mae arbedion a gynlluniwyd yn cael eu darparu hyd yma yn y Gwasanaeth Dysgu, Gwasanaethau Oedolion a Phriffyrdd, Gwastraff ac Eiddo er mwyn gallu ffurfio barn ar y canran debygol o arbedion i'w cyflawni yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyllid) / Swyddog Adran 151 mai pwrpas sefydlu'r Panel Cyllid Sgriwtini oedd galluogi grŵp bach o Aelodau i graffu'n fwy manwl ar gyllidebau gwasanaethau na mae rhaglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei ganiatáu a hynny er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o'r materion cyllideb sy'n effeithio ar wasanaethau gan arwain at heriau fwy ystyrlon ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau. Yn y cyswllt hwn, mae mewnbwn y panel yn ychwanegu gwerth i'r broses o osod y gyllideb a'i monitro.

Nododd y Pwyllgor fod y pwysau ar y gyllideb yn y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu yn parhau i achosi pryder i'r Panel a'i fod wedi uwchgyfeirio'r mater hwn at sylw'r Pwyllgor. Nododd y Pwyllgor ymhellach y gall y term "gorwario" achosi argraff gamarweiniol o wasanaeth yn gwario mewn modd anghyfrifol neu heb roi ystyriaeth i'w gyllideb ond yn achos y Gwasanaethau Plant, mae'r gwariant yn digwydd gan fod yn rhaid i'r gwasanaeth fodloni anghenion y nifer gynyddol o blant sy'n dod i ofal yr Awdurdod er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y gofal priodol. Gellid hefyd gwneud achos fod cyllideb y Gwasanaethau Plant yn rhy isel ac nad yw cyllideb y Gwasanaeth wedi cynyddu yn unol â'r gofynion cynyddol a wynebir gan y gwasanaeth.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y ffaith nad yw'r pwysau a wynebir gan y Gwasanaethau Plant yn unigryw i Ynys Môn. Nododd y Pwyllgor fod Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru a Lloegr yn teimlo o dan bwysau gydag adroddiadau yn y wasg am nifer



DRAFT

cynyddol o gynghorau yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r cynnydd mewn galw ar wasanaethau cymdeithasol gofal plant ynghyd â chyllidebau llai.

**Penderfynwyd nodi –**

- **Y cynnydd hyd yma o ran gwaith y Panel Sgriwtini Cyllid, o ran cyflawni ei raglen waith a mesur effaith a gwerth a ychwanegwyd**
- **Bod y prosesau'n ymwneud â monitro cyllideb 2018/19 yn ymddangos yn addas i bwrpas ac ar y trywydd iawn.**
- **Y rhaglen ddatblygu o ran sgriwtini ariannol parhaus ar gyfer aelodau'r Panel sy'n cael ei chyflwyno gan CIPFA Cymru.**
- **Bod y panel wedi uwchgyfeirio'r mater i ystyriaeth y Panel Sgriwtini Corfforaethol er mwyn mynegi ei bryder parhaus ynglŷn â phwysau ar y gyllideb yn y gwasanaethau plant a'r gwasanaeth dysgu. Hefyd, nodi fod y Panel yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n ofalus a bod trefniadau yn eu lle i sicrhau deialog reolaidd gyda'r Prif Weithredwr Cynorthwyol a Phenaethiaid Gwasanaeth er mwyn darparu esboniad am y sefyllfa ariannol yn y ddau wasanaeth ac effaith y mesurau lliniaru sydd mewn lle i reoli gorwariant. Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd y Panel yn parhau i adrodd ar ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor hwn wrth i'r sefyllfa ddatblygu.**

**NI CHYNIGWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**4 ADRODDIAD CYNNYDD– CYNLLUN GWELLA GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD**

- Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar weithrediad y Cynllun Gwella Gwasanaeth ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.

  Tynnwyd sylw gan yr Arweinydd, sydd hefyd yn Aeloda Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol, at rai o'r sylwadau a wnaed yn adroddiad terfynol y Tîm Cefnogi Annibynnol (IST) a gafodd eu hatgynhyrchu yn adroddiad y Swyddog. Mae'r IST, ar gais y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi bod yn cydweithio â'r Gwasanaeth er mwyn cefnogi gwelliant yn dilyn yr arolygiad o'r Gwasanaethau Plant ym mis Tachwedd, 2016. Mae'r IST yn cyfeirio at y nifer o nodweddion calonogol a chadarnhaol sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod ei waith sy'n cynnwys ond sydd ddim yn gyfyngedig i arweinyddiaeth glir a strwythur rheoli; recriwtio effeithiol i swyddi gwag a rhaglenni hyfforddiant a datblygu staff; gwell rheolaeth a chymorth mentora ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol Plant ynghyd â lefel uchel o ddealltwriaeth wleidyddol o'r materion sy'n cael sylw gan y Gwasanaethau Plant. Adroddodd yr Aelod Portffolio hefyd ar y gwelliant amlwg mewn Dangosyddion Perfformiad fel a welir yn y tabl yn Adran 3 o'r adroddiad sy'n cymharu'r perfformiad yn Chwarter 1, 2018/19 â'r perfformiad cronnus ar gyfer 2017/18. Mae cymhariaeth tebyg at ei debyg â pherfformiad Chwarter 1 2017/18 yn dangos y gwelliant hyd yn oed yn fwy amlwg. Yn debyg, mae gwelliannau sylweddol wedi bod mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaeth o ran cyflawni safonau perfformiad corfforaethol. Nododd yr Aelod Portffolio fod y Gwasanaeth wedi trefnu Dathliad ar gyfer Gofalwyr Maeth yn ddiweddar a gynhaliwyd fel cydnabyddiaeth o'r gwaith amhrisiadwy a wneir gan ofalwyr maeth yr Awdurdod a'u teuluoedd a'u ffrindiau (pobl gysylltiedig) wrth iddynt ddarparu gofal i blant a phobl ifanc mewn amgylchedd diogel pan nad oes modd iddynt fyw adref.

  Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol, sydd hefyd yn Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers arolygiad CSSIW (CIW bellach) ym mis Tachwedd, 2016 a'r adroddiad dilynol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ym Mawrth, 2017 a oedd yn cynnwys 14 o

argymhellion ar gyfer gwella. Dywedodd y Swyddog fod CIW bellach wedi cadarnhau y cynhelir arolygiad arall o’r Gwasanaeth ym mis Hydref, 2018.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod y Cynllun Gwella Gwasanaeth wedi cael ei adolygu a’i ychwanegu ato yn rheolaidd ers iddo gael ei roi at ei gilydd yn dilyn yr archwiliad. O ran y gwaith o recriwtio a chadw staff, a oedd yn faes allweddol ar gyfer gwelliant ac sydd wedi bod yn un o’r pethau sydd wedi cael ei ganolbwyntio arno ers yr adroddiad diwethaf i’r Pwyllgor, mae’r gwaith o ail-strwythuro’r Gwasanaeth bellach yn dod i ben. Mae’r Gwasanaeth wedi llwyddo i recriwtio 5 Gweithiwr Cymdeithasol Plant sydd newydd gymhwyso a chafwyd ychydig o lwyddiant hefyd wrth benodi Gweithwyr Cymdeithasol Profiadol ac mae’r Gwasanaeth yn parhau i hysbysebu am weithwyr profiadol tebyg. Bu i hysbyseb diweddar am y swydd Arweinydd Ymarfer ennyn diddordeb o du allan i’r Awdurdod, sy’n adlewyrchiad o’r gwelliant yn enw da yr Adran Gwasanaethau Plant. Mae’r Gwasanaeth hefyd wedi gwneud cynnydd mewn ffyrdd eraill fel y mae’r gwelliant mewn perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol yn tystio iddo a llai o gwynion am y Gwasanaeth. Cyfeiriodd y Swyddog at adroddiad y Tîm Cefnogi Annibynnol a cafodd ei groesawu fel gwaith calonogol ac adeiladol.

- Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini, a oedd yn darparu diweddariad ar waith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant, ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.

  Adroddodd y Cynghorydd Richard Griffiths, cynrychiolydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel Gwella Gwasanaethau Plant, fod y Panel wedi cyfarfod 13 o weithiau ers haf 2017 ac yn ystod y cyfnod hwnnw fod aelodau wedi datblygu gwell gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o gymhlethdodau’r Gwasanaethau Plant a’r risgiau a wynebir ganddynt ac o ganlyniad eu bod mewn lle gwell i allu craffu yn effeithiol, dal pobl yn atebol, adnabod blaenoriaethau a sicrhau bod y ffrydiau gwaith mewn perthynas a'r Cynllun Gwella Gwasanaeth yn mynd rhagddynt yn briodol. Fel rhan o’i raglen waith, mae’r Panel wedi ymgymryd ag ymarfer hunanwerthuso sydd wedi galluogi Aelodau i wneud asesiad critigol o’r cyfraniad y mae’r Panel yn ei wneud ar y daith tuag at wella’r Gwasanaethau Plant.

  Dywedodd y Cynghorydd Griffiths fod y Panel yn gweld fod cynnydd da yn cael ei wneud ar weithredu’r Cynllun Gwella Gwasanaeth. Er bod y ddibyniaeth ar staff asiantaeth wedi lleihau, mae’r Panel yn nodi ac yn tynnu sylw’r Pwyllgor at y ffaith bod rhai swyddi Gweithwyr Cymdeithasol yn parhau i gael eu llenwi gan staff asiantaeth a bod angen llenwi’r swyddi hyn ar sail parhaol. Nodir fodd bynnag bod y mater hwn yn cael ei ddelio ag ef drwy benodi gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso a gweithwyr cymdeithasol cymwys a drwy gefnogi gweithwyr cefnogi profiadol i gymhwyso.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd yn y ddau adroddiad ac fe godwyd y pwyntiau canlynol –

- Nododd y Pwyllgor fod y Gwasanaeth wedi gweithredu rhaglen ailstrwythuro a’i fod yn gwneud cynnydd mewn perthynas â recriwtio i swyddi Gweithwyr Cymdeithasol gwag. Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad o’u llwyddiant o ran recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol dwyieithog ac a yw hyn yn her i’r Gwasanaeth.

  Dywedodd y Pennaeth Plant a Gwasanaethau Teuluoedd bod prinder cenedlaethol o Weithwyr Cymdeithasol Plant a bod hyn yn sicr yn wir o ran Gweithwyr Cymdeithasol Plant dwyieithog. Er hyn, mae’r gwasanaeth wedi gallu bodloni dewis iaith y gwasanaethau y darperir gwasanaethau ar eu cyfer ac fy hysbysebir swyddi yn ddwyieithog ac yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor. Mae gradd Gwaith

DRAFT

Cymdeithasol Prifysgol Bangor yn cael ei chyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac o eleni ymlaen mae gofyniad bod myfyrwyr yn ddwyieithog. Felly, er bod prinder Gweithwyr Cymdeithasol dwyieithog ar hyn o bryd, mae'n debygol y bydd y sefyllfa yn newid yn y dyfodol. Cadarnhaodd y Swyddog hefyd fod y gwasanaeth wedi bod yn marchnata Gwaith Cymdeithasol fel proffesiwn mewn ysgolion a cholegau ac mae wedi sefydlu Llysgenhadon Gofal Cymdeithasol er mwyn hyrwyddo'r swyddogaeth hon. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cefnogi cynllun hyfforddeion Gwaith Cymdeithasol.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol / Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod rhai o Weithwyr Cymdeithasol asiantaeth y Gwasanaeth yn weithwyr proffesiynol sy'n dychwelyd i weithio yn yr ardal ac sydd angen anogaeth i ail ymgysylltu â'r Gymraeg ac maent yn derbyn y cymorth i wneud hynny. O ran recriwtio yn gyffredinol, mae gan y Gwasanaeth weithwyr cymorth a swyddogion cyswllt yn gweithio iddo sy'n awyddus i ymgymryd â gwaith cymorth cyn penderfynu a ydynt yn dymuno derbyn hyfforddiant Gwaith Cymdeithasol ffurfiol ai peidio; mae hon yn ffordd dda o'u cynorthwyo i weld a ydynt yn dymuno dilyn y llwybr hwn ac er mwyn eu paratoi ar gyfer yr ymrwymiad hwnnw.

- Nododd y Pwyllgor bod gostyngiad yn nifer y cwynion a dderbyniwyd yn cael ei ystyried fel canlyniad y gwelliannau sy'n cael eu gwneud yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad a yw'r gostyngiad yn un mesuradwy.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol fod 5 cwyn Cam 1 wedi eu cofnodi ar gyfer Chwarter 1 2018/19 a dim cwynion Cam 2 o gymharu â 15 cwyn Cam 1 ar gyfer yr un cyfnod y llynedd sy'n awgrymu bod unigolion yn hapusach â'r gwasanaeth y gwnaethant ei dderbyn. Mae gwrando ar blant a'u teuluoedd a gwella cyfranogiad yn faes y mae'r Gwasanaeth wedi bod yn canolbwyntio arno. Fodd bynnag, mae natur y gwasanaeth a pha mor fregus yw'r plant, pobl ifanc a'r teuluoedd y bydd y Gwasanaeth yn dod i gysylltiad â nhw yn gwneud cwynion yn fwy tebygol.

  Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd fod dysgu o gwynion yn rhan hanfodol o wella gwasanaethau. Cyflwynir adroddiadau monitro chwarterol i'r Tîm Rheoli Gwasanaethau Plant a Theuluoedd sy'n gwerthuso nifer y cwynion a chanmoliaethau a dderbyniwyd ym mhob gwasanaeth o dan bob cam o'r weithdrefn ynghyd â'r gwersi a ddysgwyd ohonynt.

- Nododd y Pwyllgor fod cadw staff wedi bod yn broblem yn y gorffennol. Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad o'r ffyrdd y mae'r Gwasanaeth yn gwella'r gefnogaeth y mae'n ei ddarparu i staff.

  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod y staff newydd sy'n cael eu recriwtio yn cael rhaglen cynefino gorfforaethol ynghyd ag un o fewn y gwasanaeth er mwyn eu cynorthwyo i setlo yn eu swyddi. Mae rôl yr Arweinwyr Ymarfer a gyflwynwyd fel rhan o ailstrwythuriad y gwasanaeth yn gyfrifol am dîm llawer llai o Weithwyr Cymdeithasol gan felly ddarparu cymorth cyson y mae'n hawdd cael mynediad iddo. Cynhelir cynadleddau staff yn rheolaidd hefyd. Un o'r elfennau pwysicaf o gymorth staff yw goruchwyliaeth sy'n agwedd o ymarfer y mae'r Gwasanaeth wedi bod yn canolbwyntio ar ei ddatblygu ac yn un y gellir bellach ei ddangos fel un sy'n gweithio'n gyson.

  Dywedodd y Cyfarwyddwyr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol bod recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol Plant yn broblem yn genedlaethol. Fodd bynnag, mae'r gwaith y mae'r Gwasanaeth wedi'i gyflawni hyd yma fel rhan o'r Rhaglen Gwelliant a'r

ailstrwythuro sydd wedi digwydd wedi arwain at recriwtio llwyddiannus, yn enwedig ar lefel rheoli, gan felly ddatblygu enw da y Gwasanaeth fel lle da i weithio. Wrth i'r neges hon ledaenu, mae'n debygol o helpu ymdrechion recriwtio yn y dyfodol.

- Nododd y Pwyllgor fod y Gwasanaeth yn lleihau ei ddibyniaeth ar staff asiantaeth a gofynnodd am gadarnhad o'r sefyllfa a ragwelir ymhen blwyddyn o ran y gymhareb o staff parhaol o gymharu â staff asiantaeth.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, tra bo'r Gwasanaeth yn mynd ati i geisio lleihau ei ddibyniaeth ar staff asiantaeth, nad yw hyn yn golygu na fydd yn cyflogi staff asiantaeth yn y dyfodol. Mae staff asiantaeth yn galluogi'r Gwasanaeth i fod yn hyblyg ar adegau pan mae angen mewnbwn ychwanegol e.e. am brosiectau cyfnod penodol megis er mwyn mynd i'r afael ag achosion hanesyddol pan y gallai recriwtio fod yn broblem fel arall neu mewn cyfnodau o absenoldebau staff. Gall staff asiantaeth hefyd gyflawni rôl gefnogi bwysig wrth iddynt rannu arbenigedd a phrofiad â gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso.

- Nododd y Pwyllgor, er bod yr adborth a ddarparwyd gan y Tîm Cefnogi Annibynnol ar ddiwedd ei waith â'r Gwasanaeth yn galonogol, mae'r IST yn nodi er bod rhai arwyddion o welliant yn ansawdd yr ymarfer bod pryderon yn parhau o ran i ba raddau mae hyn yn digwydd yn gyson. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd y bydd y mater o ansawdd a safon yr ymarfer yn parhau i gael ei ddelio ag ef. Bu'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol gydnabod fod ansawdd yr ymarfer yn ffactor pwysig ac mai dyna'r rheswm dros gyflwyno'r Safonau Ymarfer ar draws t Gwasanaeth ers 2017. Dywedodd y Swyddog, er bod lle am welliannau pellach fel y mae'r IST yn gydnabod, mae ansawdd y Gwasanaeth wedi gwella'n sylweddol yn y flwyddyn ddiwethaf.

  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod sefydlu'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd hefyd yn rhan o'r broses o wella ymarfer ar draws holl rannau'r Gwasanaeth.

  Bu'r Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol dynnu sylw at y ffaith bod y Swyddog Adolygu annibynnol, mewn cyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol yr wythnos hon, wedi dweud fod yr Uned Ansawdd a Diogelu wedi nodi, yn dilyn adolygiad ar hap o 10 o achosion, y gwelwyd fod pob un â chofnodion diweddar a bod tystiolaeth o gynnydd cadarnhaol yn y cyswllt hwn.

- Gofynnodd y Pwyllgor a yw'r amserlen o 3 blynedd ar gyfer cwblhau'r Cynllun Gwella Gwasanaeth yn realistig ac yn galluogi'r Gwasanaeth i gyflawni ei holl amcanion.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol fod y 14 o argymhellion a wnaed gan CIW o ganlyniad i'w harchwiliad o Wasanaethau Plant yr Awdurdod wedi creu'r 21 o weithredoedd yn y Cynllun Gwella Gwasanaeth. Mae tua hanner o'r gweithredoedd hynny bellach wedi'u cwblhau ac mae 8 arall ar y gweill ac ar y llwybr cywir. Tra bo tri maes yn y Cynllun Gwella wedi eu dynodi'n oren ac yn ymwneud â materion cysondeb, nid oes unrhyw ffactorau wedi'u dynodi'n Goch. Fel gydag unrhyw raglen gwelliant, mae gwneud newidiadau a sicrhau eu bod yn cael eu sefydlu'n gadarn yn y gwasanaeth yn gyson yn cymryd amser; ystyrir bod y Gwasanaeth tua tri chwarter o'r ffordd tuag at gyflawni'r newidiadau sydd angen eu gwneud.



DRAFT

**Penderfynwyd –**

- **Cadarnhau bod y Pwyllgor yn fodlon â'r camau a gymerwyd er mwyn datblygu gweithrediad y Cynllun Gwella Gwasanaeth a gyda chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyn yma gyda'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd a bod y Pwyllgor –**
- **Yn nodi'r Cynnydd a wnaed hyd yma gyda gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant, o ran cyflawni ei raglen waith.**
- **Yn nodi fod yr holl ffrydiau gwaith yn ymwneud â'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ar y trywydd iawn hyd yn hyn.**
- **Yn nodi canlyniadau ffrwd waith yr hunan arfarniad diweddar i fesur effaith a gwerth ychwanegol y Panel.**
- **Yn nodi rhaglen ddatblygu barhaus ar gyfer aelodau'r Panel, gyda llawer o'r gwaith hwnnw'n cael ei ddarparu'n fewnol.**
- **Nodi hefyd bod y Panel wedi uwchgyfeirio er sylw'r panel bod rhai swyddi gweithwyr cymdeithasol yn cael eu llenwi gan staff asiantaeth o hyd er bod cynnydd da wedi ei wneud i weithredu'r strwythur staffio diwygiedig. Nododd y Pwyllgor ymhellach yr ymdrinnir â'r mater hwn drwy apwyntio gweithwyr cymdeithasol (profiadol a rhai newydd gymhwyso) a chefnogi gweithwyr cefnogi profiadol i gymhwyso.**

**NI CHYNIGWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**5 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 1 2018/19**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Trawsnewid ac Adnoddau Dynol yn cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1 2018/19 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.

Adroddodd y Deilydd Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol bod y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn adlewyrchu safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd hwy ac fel y cytunwyd arnynt rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf, 2018. Mae'r sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 1 yn galonogol ac yn cymharu'n ffafriol â'r sefyllfa yn ystod Chwarter 1 2017/18 gyda mwyafrif y dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau. Fodd bynnag, mae 2 ddangosydd wedi dechrau'r flwyddyn yn tanberfformio yn erbyn eu targed blynyddol ar gyfer y flwyddyn – y rhain yw'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau Oedolion. Mae'r dangosydd yn y ddau achos yn cynnwys nifer fach o unigolion sy'n golygu y gall unrhyw amrywiad effeithio ar berfformiad; bydd y dangosyddion yn parhau i gael eu monitro. Mae gweddill y dangosyddion a adroddir arnynt ar gyfer Chwarter 1 o ran rheoli perfformiad i gyd â statws RAG Gwyrdd neu Felyn. Yn ogystal, o gyfanswm nifer y dangosyddion a gafodd eu dynodi'n Goch neu Oren ar ddiwedd 2017/18, mae'n braf nodi, o'r rhai hynny y gellir eu tracio yn ystod Chwarter 1 o'r flwyddyn bresennol, bod 5 o'r 6 wedi gwella o ran perfformiad a dim ond un sy'n tanberfformio ar hyn o bryd.

Dywedodd yr Aelod Portffolio, o ran Rheoli Pobl, bod y perfformiad mewn perthynas ag absenoldeb salwch ar ddiwedd Chwarter 1 wedi dirywio ychydig o'r gymharu â'r un cyfnod y llynedd gyda graddfa salwch o 2.69 diwrnod ar gyfer pob aelod o staff cyfwerth ag amser llawn o'r gymharu â 2.23 diwrnod ar gyfer pob aelod o staff yn ystod Chwarter 1 yn 2017/18. Ar lefel gwasanaeth, mae Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaeth Dysgu yn tanberfformio ac yn y Gwasanaeth Oedolion mae hynny'n ganlyniad i nifer yr achosion o salwch hirdymor yn yr Uned Ddarparwyr ac yn y Gwasanaeth Dysgu mae'n ganlyniad i lefelau salwch tymor hir a lefelau salwch uchel yn yr ysgolion cynradd. Mae nifer y

Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith – sy'n declyn effeithiol er mwyn rheoli salwch – sy'n cael eu cynnal ar amser wedi cynyddu ar gyfer y Chwarter.

O ran Gwasanaeth Cwsmer, mae'r defnydd o App Môn er mwyn cysylltu â'r Cyngor yn parhau i gynyddu. O ran rheoli Cwynion Cwsmeriaid, ar ddiwedd Chwarter 1 roedd 12 o gwynion wedi eu derbyn o gymharu ag 20 ar gyfer Chwarter 1 2017/18. Mae hyn yn welliant ar ddarpariaeth gwasanaeth y Cyngor yn enwedig wrth nodi bod yr holl gwynion yr oedd angen ymateb erbyn diwedd y chwarter (12) wedi derbyn ymateb o fewn yr amser angenrheidiol. O fewn Gwasanaethau Cymdeithasol, derbyniodd 56% o'r cwynion ymateb o fewn yr amserlen gyda 4 ymateb hwyr. Roedd canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gafodd eu hymateb iddynt o fewn yr amserlen yn 80% - i fyny o 78% ar ddiwedd 2017/18.

O ran Rheolaeth Ariannol, ar ddiwedd Chwarter 1 fe ragwelir gorwariant o £1.744 miliwn ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth, 2019. Mae'r Gwasanaethau a oedd yn teimlo pwysau cyllidebol sylweddol yn 2017/18 – Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaeth Dysgu – yn dal i deimlo'r pwysau hynny yn y flwyddyn ariannol newydd, Mae'r sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a codwyd y pwyntiau canlynol –

- Nododd y Pwyllgor fod y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaeth Dysgu wedi tanberfformio yn ystod Chwarter 1 mewn perthynas ag achosion salwch tymor hir gydag achosion salwch tymor hir yn yr Uned Ddarparu yn cyfri am 634 o ddyddiau a gollwyd i salwch yn Chwarter 1 ac mae ysgolion cynradd yn cyfri am 69% o'r lefelau salwch yn y Gwasanaeth Dysgu yn yr un Chwarter. Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad o'r mesurau a fydd yn cael eu cyflwyno er mwyn gwella'r lefelau salwch yn yr ysgolion ac yn y gwasanaethau oedolion.

  Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod y Gwasanaeth wedi sefydlu cynllun gweithredu ar y cyd ag Adnoddau Dynol er mwyn mynd i'r afael â lefelau salwch yn y sector cynradd. Mae nifer o elfennau wedi'u cynnwys gan gynnwys targed ysgolion penodol lle mae'r broblem ar ei gwaethaf a chynnwys llywodraethwyr ysgolion er mwyn iddynt allu herio lefelau salwch ysgolion. Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol a Phenaethiaid Ysgolion er mwyn gweithredu Cynllun Gweithredu i sicrhau gwelliant.

  Dywedodd y Pennaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid fod lefelau absenoldeb salwch yn uwch yn y sector cynradd yn rhannol oherwydd bod camau gweithredu wedi bod yn cael eu targedu i'r sector uwchradd lle mae lefelau salwch wedi gostwng o ganlyniad. Mae sicrhau bod ysgolion yn cynnal y Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith yn rhan o'r Cynllun Gweithredu y cyfeiriwyd ato uchod a byddant yn cael eu darparu â'r cymorth angenrheidiol er mwyn galluogi hyn i ddigwydd.

  O ran Gwasanaethau Oedolion, dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol / Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol fod y lefelau salwch uchel yn gysylltiedig â'r Uned Ddarparu sydd â 450 o staff yn gweithio ag oedolion bregus drwy ddarpariaeth gofal cartref a / neu ddarpariaeth gofal preswyl. Dywedodd y Swyddog fod 49% o gyfanswm y dyddiau a gollwyd o ganlyniad i salwch yn y gwasanaeth yn ganlyniad i ychydig o achosion o salwch tymor hir gyda'r gweddill yn ganlyniad i gyfnodau salwch tymor byr. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, bydd mwy o bwyslais ar gynnal Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a lle bo'n briodol bydd achosion penodol yn cael eu cyfeirio at Banel Absenoldeb Salwch y Gwasanaeth. Y llynedd, cafodd lefelau absenoldeb salwch y Gwasanaeth eu heffeithio arnynt gan nifer uchel o achosion o ffliw ac oherwydd natur y gwaith roedd yn golygu nad oedd modd i staff ddod i gysylltiad â'r bobl fregus y maent yn gofalu amdanynt. Mae staff yn cael eu hannog i gael eu brechu yn erbyn ffliw. Dywedodd y Swyddog hefyd y cyfeiriwyd yn y

DRAFT

gorffennol yn yr adroddiad monitro perfformiad corfforaethol chwarterol at lefelau salwch o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ond nad oes sôn am hynny yn yr adroddiad o dan sylw; y rheswm am hyn yw bod lefelau absenoldeb salwch yn y Gwasanaeth wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i ailstrwythuro'r Gwasanaeth, adolygu'r llwyth achosion a gwella goruchwyliaeth.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod y Gwasanaeth wedi rhoi'r un faint o gyfrifoldeb ar y staff a'r rheolwyr am y Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith gan ofyn i staff ofyn/atgoffa eu rheolwyr os nad yw'r Cyfweliad Dychwelyd i'r Gwaith wedi'i gwblhau o fewn yr amserlen.

- Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad ynglŷn â'r broses o ddatblygu darpariaeth Gofal Ychwanegol a hynny o ran yr adnodd sy'n cael ei adeiladu yn Llangefni a'r ddarpariaeth arfaethedig yn ardal Amlwch. O ran y cyfleuster Gofal ychwanegol, holodd y Pwyllgor a fydd unrhyw oedi yn golygu costau ychwanegol i'r Cyngor ac a fydd methu â llenwi'r adeilad yn achosi risg.

  Dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol fod cyfleuster Llangefni yn cael ei ddatblygu ar y cyd â Grŵp Tai Pennaf. Mae unrhyw oedi yn yr amserlen ar gyfer cwblhau'r cyfleuster yn fater rhwng Pennaf a'r cwmni adeiladu. Y nod yw sicrhau bod y cyfleuster yn barod erbyn y gaeaf. Dywedodd yr Aelod Portffolio bod canran fawr o'r fflatiau wedi eu clustnodi i bobl a bod llawer o ddiddordeb yn parhau i fod. Mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn sicrhau mai pobl sydd angen gofal ychwanegol fel y ddarpariaeth fwyaf briodol sy'n byw yn y fflatiau. O ran ardal Amlwch, mae Gwasanaeth Tai yr Awdurdod wrthi'n edrych ar anghenion tai yn ehangach yn yr ardal, i gynnwys tai Gofal Ychwanegol.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, o ran datblygiad Hafan Cefni fod contract yr Awdurdod â Pennaf yn nodi mai'r Cyngor fodd yn gorfod talu rhent unrhyw fflatiau sydd yn parhau i fod yn wag yn Hafan Cefni ar ôl 3 mis. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Cyngor gymryd yr amser i sicrhau bod yr unigolion sy'n dod i fyw yn Hafan Cefni yn rhai y mae modd i'w hanghenion gael eu bodloni gan lety Gofal Ychwanegol neu os nad dyna'r sefyllfa mae'n fwy tebygol o gael mwy o gostau yn ddiweddarach os yw pobl yn byw yn y cyfleuster nad yw'r math hwn o ddarpariaeth yn addas ar eu cyfer.

- Nododd y Pwyllgor yr hoffai weld, wedi'i gynnwys o fewn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol, Ddangosydd Perfformiad ar gyfer camau gorfodaeth cynllunio lle bydd y dangosyddion yn cael eu hadolygu ar gyfer y flwyddyn ganlynol ar y sail bod hwn yn faes a reolir gan dîm bach sy'n gweithio o dan bwysau.

  **Penderfynwyd -**

  - **Derbyn yr adroddiad, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau ar gyfer y dyfodol fel sydd wedi'i grynhoi ym mharagraffau 3.1.1 I 3.1.5 ac i dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir yn dilyn hynny.**
  - **Argymell, pan fydd Dangosyddion Perfformiad yn cael eu hadolygu nesaf ar gyfer eu cynnwys yn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol 2019/20, y dylai'r UDA, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol ystyried dangosydd ar gyfer Gorfodaeth Cynllunio.**

  **NI CHYNIGWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

## 6 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn cynnwys Blaen Raglen Waith presennol y Pwyllgor ar gyfer 2017/18 – 2019/20 ar gyfer ystyriaeth a sylwadau'r Pwyllgor.

Nodwyd y bydd cyfarfod y Pwyllgor i ystyried y cynigion cychwynnol ar y gyllideb 2019/20 yn gallu mynd yn ei flaen ar 24 Hydref, 2018 gan y disgwylir cyhoeddiad am y setliad grant ar gyfer llywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru ddechrau mis Hydref.

**Penderfynwyd derbyn Rhaglen y Flaen Raglen Waith heb unrhyw sylwadau pellach.**

**NI CHYNIGWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

## 7 EITEM ER GWYBODAETH – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017/18: GWRANDO A DYSGU O GWYNION

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar weithrediad Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2017/18 er gwybodaeth i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn nodi'r ffordd y gweithredwyd y Weithdrefn o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau Oedolion ar gyfer y cyfnod Ebrill 2017 i ddiwedd Mawrth 2018.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad blynyddol 2017/18: gwrando a dysgu o gwynion, yn cynnwys y canlynol –**

- **Nodi'r sylwadau a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod 2017/18 ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarparwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.**
- **Nodi perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithredu'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion ac yn delio â chwynion.**
- **Nodi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer datblygu'r trefniadau i ddelio'n effeithiol gyda'r sylwadau a chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.**

**Cynghorydd Aled M. Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod Galw i Mewn a gynhaliwyd ar 20 Medi 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, T Ll Hughes MBE, Richard Owain Jones, Bryan Owen, Alun Roberts, Nicola Roberts,<br><br>Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Llinos M Huws.<br><br>**Llofnodwyr y Cais Galw i Mewn nad ydynt yn Aelodau o'r Pwyllgor**<br><br>Y Cynghorwyr Eric W Jones, Peter Rogers, Shaun Redmond. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Pennaeth Dros Dro Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Prif Swyddog Prisio (TDE),<br>Rheolwr Sgriwtini (AD),<br>Swyddog Pwyllgor (MHE). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams – Deilydd Portffolio Cyllid;<br>Y Cynghorydd Richard A Dew – Deilydd Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.<br><br>Y Cynghorwyr Glyn Haynes, K P Hughes. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Richard Griffiths a J A Roberts.<br><br>Y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS – Deilydd Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo;<br>Y Cynghorydd Carwyn Jones – Deilydd Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd;<br>Y Cynghorydd R Meirion Jones – Deilydd Portffolio Addysg;<br>Y Cynghorydd D R Thomas – Deilydd Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol;<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams – Dirprwy Arweinydd a Deilydd Portffolio Trawsnewid a'r Iaith Gymraeg. |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEBAU**

DRAFT

Datganodd y Cynghorydd T Ll Hughes ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 3, ond yn dilyn derbyn cyngor cyfreithiol roedd modd iddo gymryd rhan yn y drafodaeth ac i bleidleisio wedi hynny.

## 2 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

## 3 GALW I MEWN PENDERFYNIAD A WNAED GAN Y DEILYDD PORTFFOLIO AR GYFER Y GWASANAETH PRIFFYRDD, GWASTRAFF AC EIDDO - ARGYMHELLIAD I WERTHU HEN YSGOL LLAINGOCH, GAN DDERBYN Y CYNNIG UCHAF

Cafodd penderfyniad a wnaed gan y Deilydd Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ar 30 Awst, 2018 ac a gyhoeddwyd ar 6 Medi, 2018 mewn perthynas ag argymhelliad i werthu hen Ysgol Llaingoch a derbyn y cynnig uchaf ei alw i mewn gan y Cynghorwyr Shaun Redmond, Peter S Rogers, Eric Wyn Jones, Bryan Owen ac Aled Morris Jones.

Esboniodd y Cynghorydd Shaun Redmond, fel Aelod Arweiniol y Cais Galw i Mewn, y rhesymau dros alw i mewn y penderfyniad a wnaed gan y Deilydd Portffolio ar gyfer y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a gyhoeddwyd ar 6 Medi, 2018. Roedd y Cynghorydd Redmond o'r farn nad oedd y penderfyniad i werthu hen safle Ysgol Llaingoch am y cynnig uchaf wedi cael ei ystyried yn llawn ac nad oedd y penderfyniad yn cynnig y gwerth gorau gan y dylid fod wedi marchnata'r safle gyda chaniatâd cynllunio. Ymhellach, amlinellodd y ffigyrau ar gyfer safleoedd tebyg a'r posibiliadau ar gyfer hen safle Ysgol Llaingoch.

Siaradodd y Cynghorwyr Eric Wyn Jones, Peter Rogers a Bryan Owen fel rhai a oedd wedi llofnodi'r cais galw i mewn gan ddweud na wireddwyd gwerth y safle o ganlyniad i dderbyn y bid ar gyfer safle Ysgol Llaingoch. Dywedodd y Cynghorydd Rogers nad yw'r potensial ar gyfer y safle wedi cael ei ystyried ac y dylid ei ail-farchnata. Yn ychwanegol, dywedodd yr Aelodau fod y cae chwarae wedi cael ei golli hefyd, a oedd yn ased i blant ardal Llaingoch.

Nododd Arweinydd y Cyngor ei bod yn cynrychioli'r Deilydd Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd trefniadau blaenorol. Cyflwynodd ymateb manwl i'r cwestiynau a gyflwynwyd gan yr Aelodau a oedd wedi arwyddo'r cais Galw i Mewn a dywedodd fod safle Ysgol Llaingoch wedi cael ei farchnata yn y lle cyntaf ym mis Awst 2017, ar wefan y farchnad eiddo, yn unol â Chynllun Rheoli Asedau'r Cyngor. Cyflwynodd fanylion am y cynigion a dderbyniwyd ar gyfer y safle a'r broses ar gyfer prisio'r safle drwy'r Prisiwr Ardal a

Phrif Swyddog Prisio'r Cyngor. Ychwanegodd yr Arweinydd nad yw'r tir ar y safle yn gyfystyr â chae chwarae mewn perthynas â'r safle hwn.

Yn dilyn hynny, rhoddwyd cyfle i'r Aelodau a oedd wedi llofnodi'r Cais Galw i Mewn, Arweinydd y Cyngor a Swyddogion grynhoi.

Dywedodd y Cadeirydd fod gan y Pwyllgor dri opsiwn wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â'r cais galw i mewn, fel a ganlyn:-

- Gwrthod y cais galw i mewn.
- Gwrthod penderfyniad y Deilydd Portffolio a chyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Gwaith gydag argymhelliad fod y penderfyniad yn cael ei ailystyried a/neu ei ddiwygio.
- Gwrthod penderfyniad y Deilydd Portffolio a chyfeirio'r mater, gydag argymhelliad, i'r Cyngor Llawn.

Cynigiodd y Cynghorydd Lewis Davies fod y cais galw i mewn yn cael ei wrthod, ac eiliwyd y cynnig.

Cynigiodd y Cynghorydd Bryan Owen fod y cais yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Gwaith, ac eiliwyd y cynnig.

Yn dilyn y bleidlais, **PENDERFYNWYD gwrthod y cais i alw i mewn penderfyniad y Deilydd Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ar 30 Awst, 2018 ac a gyhoeddwyd ar 6 Medi, 2018 mewn perthynas â'r argymhelliad i werthu hen Ysgol Llaingoch.**

DRAFT

**Y CYNGHORYDD ALED M JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

DDIM I'W GYHOEDDI

# NOT FOR PUBLICATION

**Moderneiddio Ysgolion Môn – Ysgol gynradd newydd yn Llangefni yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir**
**Modernising Anglesey Schools – New primary school in Llangefni to replace ysgol Bodffordd and Ysgol Corn Hir**

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

<table>
<tr><td colspan="2">Paragraff 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph 14 Schedule 12A Local Government Act 1972</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y PRAWF – THE TEST</td></tr>
<tr><td>Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae'r ASA/ABA sy'n atodol yn cynnwys gwybodaeth masnachol sensitif am y prosiect.<br><br>The attached SOC/OBC contains commercially sensitive information.</td><td>Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol neu fasnachol unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod sy'n dal yr wybodaeth).<br><br>Information relating to the financial or business affairs of any particular of any particular person (including the authority holding that information).</td></tr>
<tr><td colspan="2">Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn llai o bwys na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption does not outweigh the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate]</td></tr>
</table>

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank